CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/58

**HANES – HI2**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH O GYFNOD 8**

# AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1878-1980

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 8

## AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1878-1980

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongliad, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried y ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y lluniwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Chwyldro yn Rwsia, rhyfel cartref a llywodraeth Stalin, 1917-1941**

'Roedd y wladwriaeth Sofietaidd yn cael ei rhedeg ar draul pobl y wlad.'

[John Traynor, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop, yn ysgrifennu mewn llyfr cyffredinol ar hanes Ewrop, *Europe 1890-1990* (1991)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o natur y llywodraeth Gomiwnyddol yn Rwsia rhwng 1917 a 1941? [80]

**2. Yr Eidal Ffasgaidd, 1922-1939**

'Ym meysydd actio a phropaganda yn unig roedd talentau a llwyddiannau Mussolini i'w cael.'

[Martin Clark, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes yr Eidal fodern, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar hanes yr Eidal, *Modern Italy, 1871-1995* (1984)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o effaith y llywodraeth Ffasgaidd *(impact of Fascist rule)* ar y gymdeithas yn yr Eidal rhwng 1922 a 1939? [80]

**3. Yr Almaen Natsïaidd, 1933-1939**

'Roedd Hitler yn unben effeithiol iawn.'

[Robert Waites, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes yr Almaen yn yr ugeinfed ganrif, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar yr Almaen Natsïaidd, *Adolf Hitler – The Psychopathic God* (1977)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o lywodraeth y Natsïaid yn yr Almaen rhwng 1933 a 1939? [80]